# Clefyd Streptococol Grŵp A Ymledol (iGAS)
# Cwestiynau ac Atebion ar gyfer cysylltiadau agos ag achosion o iGAS
# Y Tîm Atal a Rheoli Heintiau

**C. Beth yw Streptococws grŵp A (GAS)?**
Mae Streptococws Grŵp A yn facteriwm a geir yn aml yn y gwddf ac ar y croen.

**C. Sut mae GAS yn ymledu?**
Mae Streptococi yn goroesi yn y gwddf ac ar ddwylo yn ddigon hir i ledaenu'n hawdd o berson i berson drwy disian, cusanu a chyswllt croen. Gall pobl gario Streptococi grŵp A yn y gwddf neu ar y croen heb unrhyw symptomau o salwch. Gelwir hyn weithiau'n gytref.

**C. Pa fath o afiechydon sy'n cael eu hachosi gan GAS?**
Mae'r rhan fwyaf o heintiau GAS yn afiechydon cymharol ysgafn fel "gwddf strep" neu haint croen fel impetigo. Ar adegau prin, gall y bacteria hyn achosi clefydau difrifol eraill a hyd yn oed rai sy'n bygwth bywyd.

**C. Beth yw clefyd Streptococol Grŵp A** Ymledol (iGAS)?
Weithiau gall clefyd GAS sy'n bygwth bywyd ddigwydd pan aiff bacteria i rannau'r corff ble na fydd bacteria fel arfer, megis y gwaed, y cyhyrau neu'r ysgyfaint. Gelwir yr heintiau hyn yn Glefyd Streptococol Grŵp A Ymledol. Dau fath mwyaf difrifol, ond prin, o glefyd GAS ymledol yw llid y fasgell necrotig a Syndrom Sioc Tocsig Streptococol.

**C. Pam mae clefyd streptococol** grŵp A ymledol yn digwydd?
Mae heintiau GAS ymledol yn digwydd pan fydd y bacteria yn mynd heibio i amddiffynfeydd y sawl sydd wedi'i heintio. Gall hyn ddigwydd pan fydd gan berson friwiau neu doriadau eraill yn y croen sy'n gadael y bacteria i mewn i'r feinwe, neu pan fydd gallu'r person i ymladd yr haint yn gostwng oherwydd salwch cronig neu salwch sy'n effeithio ar y system imiwnedd. Hefyd, credir bod rhai mathau o GAS yn fwy tebygol o achosi clefyd difrifol nag eraill.

**C. Ydw i'n wynebu risg o ddal clefyd streptococol grŵp A ymledol o fod mewn cysylltiad agos â pherthynas neu gyswllt ar yr aelwyd?**
Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i gysylltiad â GAS yn aros yn iach ac yn ddi-symptom, neu'n datblygu heintiau ysgafn ar y gwddf neu'r croen. Gall pobl iach ddal clefyd GAS ymledol gan berthynas neu aelod o'u cartref ond mae'n anghyffredin iawn.

**C. Beth mae angen i mi fod yn ymwybodol ohono?**
Y peth pwysicaf i fod yn ymwybodol ohono yw arwyddion a symptomau cynnar y clefyd ymledol, a ddangosir yn y blwch isod.

| **Arwyddion a symptomau cynnar clefyd streptococol grŵp A ymledol** |
| --- |
| • Twymyn fawr<br>• Poenau mawr yn y cyhyrau<br>• Tynerwch lleol yn y cyhyrau<br>• Cochni ar safle clwyf |

**C. Beth dylwn ei wneud os yw rhai o'r symptomau hyn yn datblygu ar fy mhlentyn?**

Os oes rhai o'r symptomau hyn yn datblygu, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu ofyn am gyngor meddygol ar unwaith. Dywedwch wrth eich meddyg teulu eich bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael diagnosis diweddar o clefyd streptococol grŵp A ymledol a'ch bod wedi datblygu symptomau rydych yn poeni amdanynt. Mae'n debygol iawn y bydd eich meddyg teulu yn gofyn i chi ddod i mewn i'r feddygfa er mwyn iddo/iddi allu eich archwilio.

**Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i gysylltiad â GAS yn aros yn iach ac yn ddi-symptom, neu'n datblygu heintiau ysgafn ar y gwddf neu'r croen. Mae dal clefyd GAS ymledol gan berthynas neu aelod o'r cartref yn brin iawn.**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**